

Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu yng Nghymru 2019/20

1. Manylion y cyfrif sy'n hawlio rhyddhad

Rhif y Cyfrif Ardrethi _____

Enw Llawn y Talwr Ardrethi _____

2. Cyfeiriad yr eiddo sy'n hawlio rhyddhad

3. Cyfeiriad y talwr ardrethi (os yw'n wahanol i'r uchod)

4. Cadarnhewch pa ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r eiddo, e.e. cigydd, asiantaeth teithio ac ati

5. Gallaf gadarnhau bod fy eiddo yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer un o'r categorïau sy'n cael eu rhestru yng Nghanllawiau Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr Cymru.

Ydy

Nac ydy

Os nad yw'ch eiddo'n cael ei ddefnyddio ar gyfer un o'r dibenion sy'n cael eu rhestru yn y canllawiau ynghylch Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr, ond eich bod yn meddwl efallai eich bod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad, nodwch isod pa fath o fusnes sy'n defnyddio'r eiddo. Efallai y bydd angen i'r cyngor ddod i weld eich eiddo i gadarnhau hyn.

Cymorth Gwladwriaethol

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn rheoleiddio cymorth i fusnesau a ariennir gan wladwriaethau drwy gyfraith Cymorth Gwladwriaethol. Mae darparu rhyddhad ardrethi yn ôl disgrisiwn yn debyg o gael ei gyfrif fel Cymorth Gwladwriaethol. A fydddechystal â chwblhau'r datganiad drosodd.

O ran datgan cymorth De Minimis blaenorol, cymorth De Minimis yw'r unig gymorth cyhoeddus sydd o ddiddordeb i ni (nid oes angen datgan Cymorth Gwladwriaethol dan eithriadau eraill neu gymorth cyhoeddus nad yw'n Gymorth Gwladwriaethol).

6. Ydy'ch cwmni neu fusnes wedi cael mwy na €200,000 o gymorth gwladwriaethol gan gynnwys Rhyddhad Ardrethi i Fanwerthwyr yn ystod y tair blynedd diwethaf? Ticiwch y blwch priodol.

DO

NADDO

7. Datganiad Cymorth Gwladwriaethol De Minimis

Rhaid i ddyfarniadau fel y Rhyddhad hwn gydymffurfio â chyfraith yr UE ar Gymorth Gwladwriaethol. Dan Reoliadau De Minimis (EC 1407/2013) ni ddylai'r talwr ardrethi a enwir drosodd dderbyn cyfanswm o dros €200,000 o gymhorthdal De Minimis, gan gynnwys unrhyw ryddhad ardrethi sy'n cael ei ddyfarnu i'r eiddo hwn, **yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol neu'r ddwy flynedd ariannol flaenorol.** Rhowch isod, fanylion unrhyw gymhorthdal De Minimis a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol neu'r ddwy flynedd ariannol flaenorol:

Swm y Cymhorthdal De Minimis	Cyfnod caniatáu'r cymhorthdal	Sefydliad sy'n darparu cymhorthdal	Natur y cymorth

Os bydd eich amgylchiadau'n newid, gan olygu nad ydych bellach yn bodloni'r meini prawf, rhaid i chi ein hysbysu er mwyn i ni adolygu Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr o ddyddiad y newid hwnnw ymlaen.

8. Datganiad:

Drwy lofnodi'r ffurflen rydych yn cadarnhau, hyd eithaf eich gwybodaeth, bod yr wybodaeth ar y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir. Mae gwneud datganiad anwir ar y ffurflen gais yn drosedd, a gallwn gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.

Rwy'n datgan:

- Bod gennyf hawl i lofnodi ar ran y talwr ardrethi a enwir drosodd.
- Bod y ffurflen wedi'i llenwi'n gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth.
- Na fydd y talwr ardrethi a enwir drosodd yn croesi'r trothwy De Minimis drwy dderbyn unrhyw ryddhad ardrethi i fanwerthwyr a roddir.

Enw Llawn _____

Llofnod . _____ Dyddiad _____

Swydd yn y Sefydliad _____

Rhif Ffôn _____

Cyfeiriad E-bost _____

Ar ôl llenwi'r ffurflen anfonwch hi at: **Ardrethi Busnes, Tŷ Elwyn, Llanelli, SA15 3AP**

Neu e-bostio - **trethi@sirgar.gov.uk**

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â'r Adain Ardrethi Busnes drwy ffonio 01554 742330 neu drwy e-bostio: trethi@sirgar.gov.uk